SUL CYFFREDIN 4

1 SAMUEL 3:1-10 [11-20]; SALM 139:1-6, 13-18;
2 CORINTHIAID 4:5-12; MARC 2:23–3:6

● **Gweddi agoriadol**

Yn nhawelwch y foment hon
ceisiwn dy bresenoldeb, Arglwydd –
gwybod yn siwr
dy fod gyda ni...
(saib)
dy sibrwd tawel i'w glywed…
(saib)
dy Ysbryd Glân yn arwain....
(saib)
dy gariad gwerthfawr yn amgylchynu....
(saib)
Yn nhawelwch y foment hon
ceisiwn dy bresenoldeb, Arglwydd.

● **Moliant**

Gallwn ymddiried ynot, Arglwydd,
achos dy fod yn ein nabod mor dda;
dealli ein meddyliau a'n ffyrdd,
a'r gweddïau ar ein calonnau,
rwyt wrth ein hochr pan syrthiwn,
fe'n ceri fel yr ydym.

Arweinydd: Dduw gras
Pawb: Bydd yn agos atom, yw ein gweddi.

Gallwn ymddiried ynot, Arglwydd,
achos dy fod yn nabod y ffordd a gerddwn,
wedi cerdded y ffordd o'n blaenau,
ac er gwaethaf gwendid ein ffydd
a themtasiynau bob dydd,
fe'n ceri fel yr ydym.

Arweinydd: Dduw gras
Pawb: Bydd yn agos atom, yw ein gweddi.

● **Cyffes**
Maddau i ni sy'n dy alw yn 'Arglwydd',
yn gweddïo arnat,
ac eto ddim yn clywed dy ateb
gan ein bod yn rhy glwm mewn lle arall.
Pan siaredi â ni, Arglwydd,
yn nhawelwch pen y mynydd
neu brysurdeb stryd y ddinas,
yn ein trafodaethau
a'n hymgynghori,
wrth fwrdd y cwmni
neu badell y gegin,
boed i'n hymateb wastad fod
yn un Samuel ffyddlon:
'Llefara, Arglwydd, achos mae dy was
yn gwrando ar dy alwad.'

● **Diolch**

Am dy holl saint sydd,
ar hyd y canrifoedd,
wedi rhoi eu bywyd
er mwyn Iesu Grist,
cyflwynwn ein diolch cywir.
(Saib)
Am bawb sy'n dioddef heddiw
o achos eu ffydd,
ac sy'n gwrthod gwadu
enw Iesu Grist,
cyflwynwn ein diolch cywir.
(Saib)
Am bawb ddaeth ynghyd yma
sydd wedi ymateb mewn ffydd
wrth weld mewn eraill
oleuni Iesu Grist,
cyflwynwn ein diolch cywir.